

Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Y Cod Cyfathrebiadau Electronig

Y Bil Economi Ddigidol: Cod Ymarfer, Telerau
Cytundeb Safonol a Hysbysiadau Safonol Arfaethedig

Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad Cau ar gyfer
Ymatebion:

Ymgynghoriad
24 Mawrth 2017
2 Mehefin 2017

Gair am y ddogfen hon

Ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Economi Ddigidol i'r Senedd. Ymysg pethau eraill byddai'r Bil Economi Ddigidol, petai'n cael ei fabwysiadu, yn diwygio'r 'cod cyfathrebiadau electronig' drwy gynnwys amrywiaeth o fesurau i'w gwneud hi'n haws i weithredwyr rhwydweithiau gyflwyno seilwaith (fel mastiau ffôn, cyfnewidfeydd a chabinetau) ar dir cyhoeddus ac ar dir preifat. Bydd y Bil yn cwblhau ei daith drwy'r Senedd cyn bo hir.

Mae'r diwygiadau i'r cod cyfathrebiadau electronig a gynigir yn y Bil Economi Ddigidol yn amrywiol a byddant yn arbennig o arwyddocaol i weithredwyr rhwydweithiau a thirfeddianwyr. Fodd bynnag, maent yn cynnwys dyletswyddau newydd ar Ofcom i gyhoeddi:

- Cod Ymarfer a fydd yn mynd gyda'r newidiadau a gynigir i'r cod cyfathrebiadau electronig;
- nifer o hysbysiadau templed y bydd yn rhaid i weithredwyr y Cod eu defnyddio ynghyd â thirfeddianwyr/meddianwyr; a
- telerau safonol y bydd modd i weithredwyr y Cod a thirfeddianwyr neu feddianwyr eu defnyddio wrth drafod cytundebau i gyflwyno hawliau Cod (ond ni fydd angen iddynt wneud hynny).

Mae Ofcom wedi paratoi fersiynau drafft o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt uchod ac, fel y nodir yn y Bil Economi Ddigidol, mae nawr yn gofyn am sylwadau ynghylch pob un o'r rhain.

Cynnwys

Adran

Tudalen

1	Crynodeb Gweithredol	1
2	Cyflwyniad	2
3	Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch	7
4	Y camau nesaf	10

Atodiad

Tudalen

1	Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	11
2	Egwyddorion ymgynghori Ofcom	14
3	Cwestiynau'r ymgynghoriad	16
4	Cod Ymarfer Drafft	17
5	Atodlenni i'r Cod Ymarfer	26
6	Telerau Safonol Drafft	28
7	Hysbysiadau Templed Drafft	41

Adran 1

Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Ar hyn o bryd mae'r cod cyfathrebiadau electronig (**y Cod**) yn rhoi hawliau penodol i weithredwyr (**Gweithredwyr y Cod**) sy'n gyfrifol am y gwaith o osod a chynnal offer cyfathrebiadau electronig ar dir cyhoeddus. Ar ben hynny, caiff Gweithredwr y Cod wneud cais am orchymyn llys i osod a chynnal a chadw offer ar dir preifat, os nad yw wedi gallu dod i gytundeb gyda'r tiffeddiannwr.
- 1.2 Ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Economi Ddigidol gerbron y Senedd, sy'n cynnwys amrywiaeth o ddiwygiadau i'r Cod, gan gynnwys dyletswyddau newydd ar Ofcom i gyhoeddi:
 - Cod Ymarfer a fydd yn mynd gyda'r newidiadau a gynigir i'r Cod;
 - nifer o hysbysiadau templed y bydd yn rhaid i Weithredwyr y Cod a thirfeddianwyr/meddianwyr eu defnyddio neu y cânt eu defnyddio (bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau dan sylw); a
 - telerau safonol y bydd modd i weithredwyr y Cod a thirfeddianwyr neu feddianwyr eu defnyddio wrth drafod cytundebau i gyflwyno hawliau Cod (ond ni fydd angen iddynt wneud hynny).
- 1.3 Diben yr ymgynghoriad hwn ydy rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar fersiynau drafft o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt uchod. Rydyn ni'n cydnabod y gallai'r Bil Economi Ddigidol gael ei ddiwygio ymhellach cyn iddo ddod yn Ddeddf, ond rydyn ni'n credu ei bod hi'n briodol ymgynghori ar y cam hwn i sicrhau ein bod yn gallu cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol cyn gynted ag y daw darpariaethau perthnasol y Ddeddf a fydd yn dilyn i rym.
- 1.4 Mae Ofcom wedi datblygu'r Cod Ymarfer drafft (a'r telerau a'r hysbysiadau safonol ategol) gan weithio gyda thrawstoriad cytbwys o gynrychiolwyr a enwebwyd gan grwpiau rhanddeiliaid gwahanol, er mwyn ystyried ystod eang o fuddiannau a phryderon yn llawn.
- 1.5 Mae rhanddeiliaid wedi cwestiynu yn y gorffennol a oedd y berthynas rhwng darparwyr seilwaith cyfanwerthol a'r darparwyr cyfathrebiadau'n yn cael ei llywodraethu'n effeithiol gan y Cod ynteu a fyddai'n dod o dan gwmpas pwerau rheoleiddio eraill Ofcom. Gallwn gadarnhau y gallai rhai o bwerau statudol eraill Ofcom ein galluogi, mewn egwyddor, i reoleiddio ar ba delerau y byddai darparwyr seilwaith cyfanwerthol yn rhoi mynediad i'w seilwaith.
- 1.6 Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 10 wythnos, gan gau ddydd Iau, 1 Mehefin 2017. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben byddwn yn adolygu'r holl ymatebion a fydd wedi cael eu cyflwyno ac yn cyhoeddi fersiynau terfynol o'r Cod Ymarfer a'r telerau a'r hysbysiadau safonol ategol mewn datganiad terfynol a gyhoeddir cyn gynted â phosibl ar ôl i ddarpariaethau perthnasol y Bil Economi Ddigidol ddod i rym.
- 1.7 Rydyn ni wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r Cod Ymarfer, ar ôl cyhoeddi ein datganiad terfynol, i sicrhau bod ei gynnwys yn dal yn addas i'r diben, yn briodol ac yn gymesur wrth ystyried datblygiadau parhaus.

Cyflwyniad

Trosolwg

- 2.1 Ar hyn o bryd mae'r Cod yn rhoi hawliau i rai darparwyr rhwydweithiau a systemau sianeli cyfathrebiadau electronig (a ddynodwyd gan Ofcom yn 'Weithredwyr y Cod') i osod a chynnal offer cyfathrebiadau electronig (gan gynnwys mastiau, cyfnewidfeydd, cabinetau a cheblau) ar dir cyhoeddus. Caiff Gweithredwyr y Cod hefyd wneud cais am orchymyn llys i osod a chynnal a chadw offer ar dir preifat, os nad yw wedi gallu dod i gytundeb gyda'r trefeddiannwr. Mae'r Cod felly'n rheoleiddio'r berthynas gyfreithiol rhwng trefeddiannwr a Gweithredwyr y Cod.
- 2.2 Ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Economi Ddigidol gerbron y Senedd. Ymysg pethau eraill, byddai'r Bil Economi Ddigidol, petai'n cael ei fabwysiadu, yn diwygio'r Cod drwy gynnwys amrywiaeth o fesurau i'w gwneud hi'n haws i Weithredwyr y Cod gyflwyno offer cyfathrebiadau electronig.¹ Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, roedd y Bil yn cael ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- 2.3 Mae'r diwygiadau i'r Cod a gynigir yn Atodlen 1 Bil yr Economi Ddigidol (**y Cod Newydd**) yn amrywiol a byddant yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff tir ei brisio a hawl awtomatig i Weithredwyr y Cod uwchraddio a rhannu eu hoffer telegyfathrebiadau.
- 2.4 Byddant hefyd yn cynnwys dyletswyddau newydd ar Ofcom i gyhoeddi:
- Cod Ymarfer a fydd yn mynd gyda'r Cod Newydd;
 - nifer o hysbysiadau templed y bydd yn rhaid i Weithredwyr y Cod a thirfeddiannwr/meddiannwr eu defnyddio neu y cânt eu defnyddio (bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau); a
- telerau safonol y bydd modd i Weithredwyr y Cod a thirfeddiannwr/meddiannwr eu defnyddio wrth drafod cytundebau i gyflwyno hawliau Cod (ond ni fydd angen iddynt wneud hynny).
- 2.5 Diben yr ymgynghoriad hwn ydy rhoi cyfle i'r rheini sydd â diddordeb, yn unol â pharagraffau 89(3) a 102(4) y Cod Newydd,² gyflwyno sylwadau ar fersiynau drafft y dogfennau hyn.
- 2.6 Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r Bil Economi Ddigidol wedi cael Cydsyniad Brenhinol eto ac y gallai gael ei ddiwygio ymhellach yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Fodd

¹ Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ddiddymu'r fersiwn gyfredol o'r Cod (a nodir yn Atodlen 2 Deddf Telegyfathrebiadau 1984) a gosod fersiwn newydd o'r Cod mewn Atodlen 3A newydd i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r fersiwn newydd o'r Cod wedi'i osod ar hyn o bryd yn Atodlen 1 o'r Bil Economi Ddigidol.

² Mae pob cyfeiriad yn yr Ymgynghoriad hwn a'r Atodiadau cysylltiedig at y Bil Economi Ddigidol neu'r Cod Newydd yn seiliedig ar [Fil HL 102 56/2](#), a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror 2017, sy'n ymgorffori diwygiadau a wnaed hyd at a gan gynnwys cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

bynag, rydyn ni'n credu ei bod hi'n briodol ymgynghori ar y cam hwn er mwyn i ni allu cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol cyn gynted ag y daw Atodlen 1 y Bil Economi Ddigidol i rym, neu yn fuan ar ôl hynny.³ Er ein bod yn cydnabod efallai y bydd angen i ni ail ymgynghori ynghylch rhai o'r dogfennau hyn os caiff newidiadau mawr eu gwneud i'r Cod Newydd cyn iddo ddod i rym, ni fyddem yn disgwyl ail ymgynghori os mai bach ydy'r newidiadau.

Hanes y Cod Cyfathrebiadau Electronig

- 2.7 Yn wreiddiol cafodd y Cod ei ddeddfu yn 1984 i reoleiddio darparu telefoni llinell dir o dan Atodlen 2 y Ddeddf Telegyfathrebiadau. Cafodd ei ddiwygio wedyn gan Atodlen 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003,⁴ er mwyn ei alluogi i gefnogi'r seilwaith sy'n darparu band eang, rhyngwyd symudol a theledu cebl.
- 2.8 Rhwng 2011 a 2013, mewn ymateb i gais gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad o'r Cod. Cyhoeddwyd yr adolygiad⁵ ym mis Chwefror 2013 ac roedd yn cynnwys dros 15 tudalen o argymhellion r gyfer diwygio.
- 2.9 Yn nes ymlaen yn 2013, cyflwynodd y Ddeddf Twf a Seilwaith⁶ gyfres o ddiwygiadau dros dro (a oedd yn para 5 mlynedd) i'r Cod. Cawsant eu cynllunio yn benodol i gyflymu'r gwaith o osod seilwaith band eang.
- 2.10 Ddechrau 2015, cyflwynodd Llywodraeth y Glymblaid ddiwygiadau i'r Bil Seilwaith a fyddai, petai'n dod i rym, wedi cynnwys diwygiadau sylweddol i'r Cod⁷ ar sail argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Cafodd y diwygiadau hyn wedyn eu tynnu'n ôl oherwydd pryderon gan randdeiliaid, i alluogi ymgynghori ac ymchwil pellach. Cyhoeddodd yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei Ddogfen Ymgynghori ei hun yn Chwefror 2015. Yn dilyn hyn, ymgynghorodd yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ymhellach gyda randdeiliaid, a chomisiynu ymchwil economaidd annibynnol ar impact ystod o opsiynau diwygio ar y farchnad.
- 2.11 Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r Cod yn cael ei ddiwygio yn y Bil Economi Ddigidol a oedd ar y gweill, "*gan gynnig diwygiadau mawr i'r hawliau sydd gan ddarparwyr cyfathrebiadau o ran cael mynediad i dir.*"⁸

Ein darpar ddyletswyddau fel y nodir yn y Bil Economi Ddigidol

- 2.12 Fel sy'n cael ei egluro uchod, byddai'r Cod newydd a osodir yn Atodlen 1 y Bil Economi Ddigidol, petai'n cael ei ddeddfu, yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi nifer o ddogfennau.

³ Daw Atodlen 1 y Bil Economi Ddigidol i rym ar ddyddiad a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy offeryn statudol (adran 97(7), y Bil Economi Ddigidol).

⁴ [Deddf Cyfathrebiadau 2003, Adran 106, Atodlen 3: Diwygiadau Atodlen 2 Deddf Telegyfathrebiadau 1984](#)

⁵ [Comisiwn y Gyfraith, Y Cod Cyfathrebiadau Electronig, 27 Chwefror 2013](#)

⁶ [Deddf Twf a Seilwaith 2013, adran 9](#)

⁷ [Telegyfathrebiadau, Ateb Ysgrifenedig, 6 Ionawr 2015](#)

⁸ [Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Cod Cyfathrebiadau Electronig Newydd, 17 Mai 2016, tudalen 4](#)

- 2.13 Yn gyntaf, mae paragraff 89 o'r Cod Newydd yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom *“ragnodi ffurf hysbysiad a roddir dan bob un o ddarpariaethau'r cod hwn sy'n mynnu bod hysbysiad yn cael ei roi”*. Petai'r Bil Economi Ddigidol yn dod yn gyfraith, byddai'n rhaid i Ofcom felly gyhoeddi nifer o hysbysiadau templed y byddai'n rhaid i Weithredwyr y Cod a thirfeddianwyr/meddianwyr eu defnyddio neu y caent eu defnyddio (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau).
- 2.14 Yn ail, byddai paragraff 102(1) o'r Cod Newydd⁹ yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi cod ymarfer yn delio â:
- a) darparu gwybodaeth at ddibenion y Cod Newydd gan weithredwyr i'r rheini sy'n meddiannu'r tir neu sydd â buddiant yn y tir;
 - b) cynnal trafodaethau at ddibenion y Cod Newydd rhwng gweithredwyr ac unigolion o'r fath;
 - c) ymddygiad gweithredwyr mewn perthynas ag unigolion sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir sy'n gyfagos i dir lle caiff offer cyfathrebiadau ei osod arno, oddi tano neu drosto; a
 - d) materion eraill sy'n ymwneud â gweithredu'r Cod Newydd fel mae Ofcom yn credu sy'n briodol.
- 2.15 Eglurodd y Llywodraeth yn ei hymgyngoriad ynghylch y Cod y bydd y Cod Ymarfer yn galluogi rhoi ei ddiwygiadau tymor hir ar waith yn llyfn, ac y carai weld holl grwpiau rhanddeiliaid y diwydiant yn gweithio gydag Ofcom i'w ddatblygu. Mae hi'n bwysig nodi mai diben y Cod Ymarfer arfaethedig hwn ydy gosod y disgwyliadau ar gyfer ymddygiad partiön yng nghyswllt cytundebau a gaiff eu llunio o dan y Cod Newydd. Nid yw'n ganllaw i'r Cod Newydd ac nid yw'n disodli darpariaethau'r Cod Newydd. Yn lle hynny mae wedi cael ei ddylunio i ategu'r Cod Newydd drwy hwyluso ymgysylltu cadarnhaol a chynhyrchiol rhwng pob parti ar draws amrywiaeth o faterion, rolau a chyfrifoldebau.
- 2.16 Nid yw'r Cod Ymarfer yn rhwymo (o ran nad oes dyletswydd statudol ar weithredwyr na thirfeddianwyr i gydymffurfio â'i ddarpariaethau). Fodd bynnag, byddem yn disgwyl gweld partiön yn ceisio gweithredu yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer. Byddem hefyd yn nodi y gall llysoedd ystyried cydymffurfiaid â chodau ymarfer perthnasol wrth asesu ymddygiad wrth ddyrannu costau. Gyda'i gilydd dylai hyn sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cael effaith go iawn ar sicrhau'r ymarfer gorau wrth roi seilwaith cyfathrebiadau digidol ar waith. Yn drydydd, byddai paragraff 102(2) y Cod Newydd yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi telerau safonol y byddai modd eu defnyddio mewn cytundebau o dan y Cod Newydd (er na fyddai angen gwneud hynny).

Proses ddatblygu'r Cod Ymarfer drafft

- 2.17 Fel rydyn ni wedi'i egluro uchod, awgrymodd y Llywodraeth yn ei hymgyngoriad ynghylch y Cod yr hoffai weld holl grwpiau rhanddeiliaid y diwydiant yn gweithio gydag Ofcom i ddatblygu'r Cod Ymarfer.

⁹ [Y Bil Economi Ddigidol, Bil HL 102 56/2, 8 Chwefror 2017, tudalen 159](#)

- 2.18 Mae Ofcom wedi datblygu drafft cychwynnol o'r Cod Ymarfer hwn drwy weithio gyda sbectrwm eang o randdeiliaid gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned gweithredwyr sefydlog a symudol, darparwyr seilwaith cyfathrebiadau a chynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Ffederasiwn Eiddo Prydain a Chymdeithas Ganolog y Prîswyr Amaethyddol.
- 2.19 Drwy gydol y broses hon, mae Ofcom wedi bod yn hwylusydd niwtral, gyda'r amcan o hybu trawstoriad cytbwys o gynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid gwahanol er mwyn dod i gonsensws sy'n adlewyrchu ystod eang o fuddiannau a phryderon.
- 2.20 Ar 28 Gorffennaf 2016 cynhaliodd Ofcom gyfarfod cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid yn nodi sut roedd am fynd ati i gynnal y broses o ddrafftio'r Cod Ymarfer, a gofynnodd i gymunedau rhanddeiliaid gwahanol enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu ar Grŵp Drafftio Cod Ymarfer.
- 2.21 Ym mis Medi 2016 fe wnaethom gadarnhau aelodaeth y Grŵp Drafftio Cod Ymarfer, a oedd yn cynnwys wyth ymarferydd arbenigol yn cynrychioli tîfeddianwyr, gweithredwyr rhwydweithiau cyfathrebu a darparwyr seilwaith.
- 2.22 Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2016 paratôdd y Grŵp Drafftio fersiynau olynol o'r ddogfen Cod Ymarfer ddrafft, a gafodd ei hadolygu mewn cyfarfodydd misol wedi'u cynnal gan Ofcom gyda'r nod o gasglu mewnbyn ychwanegol gan grŵp ehangach o randdeiliaid ar draws y sector.
- 2.23 Ochr yn ochr â'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid y prif ffrwd, roedd Ofcom wedi paratoi templedi ategol ar gyfer hysbysiadau safonol a thelerau safonol (edrychwch ar Atodiad XX), roedd y telerau yn seiliedig ar ddeunyddiau a gyflwynwyd gan y grŵp rhanddeiliaid ehangach y cyfeirir ato uchod.
- 2.24 Yn unol â'r amserlen roedden ni wedi cytuno arni ymlaen llaw, cyflwynodd y Grŵp Drafftio fersiwn terfynol o'r Cod Ymarfer drafft i Ofcom ar 16 Rhagfyr 2016. Rydym wedi adolygu eu hallbwn ac yn credu, gyda rhai mân ddiwygiadau drafftio, ei fod yn diwallu'r gofynion a nodir ym mharagraff 102(1) y Cod Newydd. O ganlyniad, mae'r testun yn Atodiad 4 y ddogfen hon, sydd bellach yn destun ymgynghoriad gydag amrywiaeth ehangach o bartïon sydd â diddordeb.

Rheoleiddio mynediad i seilwaith darparwyr seilwaith cyfanwerthol

- 2.25 Wrth ddatblygu'r pecyn o ddiwygiadau i'r Cod a arweiniodd at y diwygiadau a gynigiwyd yn y Bil Economi Ddigidol, roedd rhanddeiliaid wedi darparu amrywiaeth o fewnbwn i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom ynghylch a oedd y berthynas rhwng darparwyr seilwaith cyfanwerthol¹⁰ a darparwyr cyfathrebiadau (yn enwedig gweithredwyr rhwydweithiau symudol) yn cael ei llywodraethu'n effeithiol gan y Cod ac, os nad, pa ddiwygiadau allai fod yn angenrheidiol i'r Cod.

¹⁰ Mae darparwyr seilwaith cyfanwerthol yn sefydliadau sy'n darparu seilwaith ffisegol (hy safleoedd, mastiau ac ati) i weithredwyr rhwydweithiau symudol er mwyn eu galluogi i gyflwyno eu rhwydweithiau. Arqiva a Wireless Infrastructure Group (WIG) ydy'r darparwyr seilwaith cyfanwerthol annibynnol mwyaf. Mae'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol eu hunain yn gweithredu fel darparwyr seilwaith cyfanwerthol wrth roi mynediad i'w mastiau i'w gilydd.

- 2.26 Daeth y Llywodraeth i'r casgliad nad oedd angen newidiadau penodol i'r Cod, fel yr eglurwyd yn natganiad polisi'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon "Cod Cyfathrebiadau Electronig Newydd" a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016.¹¹
- 2.27 Byddem yn nodi, ers i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyhoeddi'r datganiad hwn bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud tuag at ddatblygu Cod Ymarfer gwirfoddol rhwng darparwyr seilwaith cyfanwerthol a gweithredwyr rhwydweithiau symudol, a bod Ofcom yn cefnogi hynny. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid yn y diwydiant yn chwilio am gadarnhâd, petai trafodaethau masnachol ac unrhyw gyflafareddu dilynol yn methu, ar ba delerau mae modd rheoleiddio sut mae darparwyr seilwaith cyfanwerthol yn rhoi mynediad i'w seilwaith.
- 2.28 Er ei bod hi'n anodd rhoi safbwynt ar y mater hwn mewn ffordd haniaethol, gallwn gadarnhau bod gan Ofcom nifer o bwerau statudol a allai ein galluogi, mewn egwyddor, i reoleiddio ar ba delerau mae darparwyr seilwaith cyfanwerthol yn rhoi mynediad i'w seilwaith. Er enghraifft, mae gan Ofcom bwerau penodol i reoleiddio mynediad i seilwaith o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:¹²
- rheoliad 3(4) o'r Rheoliadau Cod Cyfathrebiadau Electronig (Amodau a Chyfngiadau) 2003/2553;¹³
 - adran 73 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("**Deddf 2003**") (hy drwy osod amod sy'n ymwneud â mynediad);
 - adran 87 o Ddeddf 2003 (hy drwy osod amod pŵer sylweddol yn y farchnad); ac
 - adran 185 o Ddeddf 2003 (hy drwy ddatrys anghydfod sy'n ymwneud â darparu mynediad rhwydwaith).
- 2.29 Rydym yn nodi, yn y lle cyntaf, yn gyffredinol byddem yn ceisio datrys problemau drwy ddefnyddio'r ffordd fwyaf priodol a lleiaf ymwthiol, gydag atebolrwydd i ymyriadau mwy ffurfiol dim ond pan fyddai angen.

¹¹ [Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Cod Cyfathrebiadau Electronig Newydd, Mai 2016](#)

¹² Mae gan Ofcom hefyd bwerau penodol o dan gyfraith cystadleuaeth gyffredinol i wneud iawn am gamddefnydd neu oruchafiaeth cytundebau sy'n wrthgystadleuol.

¹³ Mae Rheoliad 3(4) yn pennu y bydd Gweithredwr y Cod "yn rhannu offer cyfathrebiadau electronig pan fydd hynny'n ymarferol". Mae gan Ofcom bwerau o dan adran 110 o Ddeddf 2003 i ofodi'r gofyniad hwn.

Adran 3

Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch

Cod Ymarfer Drafft

- 3.1 Fel yr eglurir yn Adran 2 uchod, byddai'r Bil Economi Ddigidol (petai'n cael ei fabwysiadu) yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi Cod Ymarfer i fynd gyda'r diwygiadau a gynigir i'r Cod.
- 3.2 Rydym nawr yn ymgynghori ynghylch y Cod Ymarfer drafft a'r Atodlenni cysylltiedig sydd ar gael yn **Atodiad 4 ac Atodiad 5** y naill a'r llall.

1. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch cwmpas neu ddrafftio'r Cod Ymarfer, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiadau 4 a 5?

Telerau safonol drafft

- 3.3 Fel yr eglurir yn Adran 2 uchod, byddai paragraff 102(2) y Cod Newydd yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi telerau safonol y byddai modd eu defnyddio mewn cytundebau o dan y Cod Newydd (er na fyddai angen gwneud hynny).
- 3.4 Er mwyn paratoi i'r Bil Economi Ddigidol ddod i rym rydym felly wedi paratoi (ac nawr yn ymgynghori ynghylch) cyfres o delerau safonol y gellid eu defnyddio gan unrhyw barti sy'n ceisio dod i gytundeb ynghylch trosglwyddo hawliau Cod o dan y Cod Newydd. Mae fersiwn drafft o'r telerau safonol hyn ar gael yn **Atodiad 6**.
- 3.5 Er mwyn helpu i baratoi'r telerau safonol hyn, roeddem wedi gofyn i aelodau o'r Grŵp Drafftio Cod Ymarfer os byddent yn fodlon rhannu copïau o'u cytundebau Cod templed â ni. Roedd nifer o'r aelodau wedi rhannu eu cytundebau â ni ac rydym wedi defnyddio'r rhain er mwyn drafftio'r telerau safonol rydyn ni nawr yn ymgynghori yn eu cylch.
- 3.6 Wrth baratoi'r telerau safonol hyn, rydym wedi ystyried safbwyntiau ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith.¹⁴ Yn benodol, eglurodd Comisiwn y Gyfraith, ymysg pethau eraill, y byddai telerau safonol yn ddefnyddiol ar y sail eu bod yn gallu rhoi man cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau, ond y byddai modd eu diwygio yn ôl yr angen er mwyn diwallu amgylchiadau penodol. Roedd o'r farn, ar y lefel mwyaf sylfaenol, y gallai telerau safonol helpu partïon, yn enwedig tirfeddianwyr, i sicrhau nad oedd telerau pwysig yn cael eu hanghofio.
- 3.7 Rydym yn cydnabod efallai y bydd rhai paratoi yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol petai Ofcom yn paratoi mwy nag un set o delerau safonol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried hyn yn ofalus ein barn dros dro ydy nad oes angen gwneud hyn ac mai cyfyngedig (os o gwbl) fyddai gwerth paratoi mwy nag un set o delerau.
- 3.8 Rydym yn nodi nad yw'r Bil Economi Ddigidol yn mynnu bod Ofcom yn paratoi mwy nag un set o delerau safonol. Ar ben hynny, roedd Comisiwn y Gyfraith yn cydnabod,

¹⁴ [Comisiwn y Gyfraith, Y Cod Cyfathrebiadau Electronig, 27 Chwefror 2013, tudalennau 203 – 205.](#)

y bydd cytundebau Cod, yn ymarferol, yn berthnasol i ystod eithriadol o eang o amgylchiadau; y dechnoleg sydd i'w gosod i nodweddion ffisegol y safle a'r dull gweithredu sy'n cael ei ffafrio ac yn aml bydd soffistigeiddrwydd partïon y cytundeb yn dra gwahanol. Byddai'n dasg fawr i Ofcom baratoi amrywiaeth o delerau safonol sy'n addas i bob math o dechnoleg, safle, gweithredwr a thirfeddiannwr/meddiannwr ac nid yw hi'n glir i ni y byddai hyn o fudd i Weithredwyr y Cod a'r tîr feddiannwyr/meddiannwyr.

- 3.9 I'r perwyl hwn, ac fel y nodir uchod, diben y telerau safonol ydy rhoi man cychwyn i'r partïon ar gyfer eu trafodaethau, yn hytrach na darparu set derfynol o delerau ar gyfer pob parti. Rydym yn disgwyl y bydd hi'n well gan nifer o ddarparwyr safle a Gweithredwyr Cod profiadol ddefnyddio eu telerau eu hunain ac, ar gyfer trafodion sy'n fwy cymhleth, mae'n debyg y bydd partïon yn gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau bod eu cytundeb Cod wedi'i deilwra'n briodol yn ôl eu hamgylchiadau penodol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod ffynonellau eraill o delerau ac amodau safonol sydd wedi cael eu datblygu drwy ymgynghoriadau rhwng phartïon a diddordeb. Enghraifft dda o hyn fyddai'r cytundeb fforddfraint ar gyfer adeilad swyddfa aml-breswlydd a ddatblygwyd ar gyfer Dinas Llundain.¹⁵

2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch cwmpas neu ddrafftio'r telerau safonol, fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad 6?

Hysbysiadau templed drafft

- 3.10 Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Cod Newydd sy'n cael ei gynnig yn y Bil Economi Ddigidol yn mynnu bod Gweithredwyr y Cod, tîr feddiannwyr/meddiannwyr a phartïon eraill yn darparu hysbysiad i'w gilydd. Er enghraifft, byddai'n rhaid i Weithredwr Cod roi gwybod i ymgynghwr trafndiaeth am ei fwiad i wneud gwaith nad yw'n waith brys ar dir trafndiaeth o dan baragraff 48(1) o'r Cod Newydd.
- 3.11 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2 uchod, ar hyn o bryd mae paragraff 89 o'r Cod Newydd yn darparu pan fydd darpariaeth yn y Cod Newydd "*yn mynnu bod hysbysiad yn cael ei roi*", rhaid i Ofcom ragnodi ffurf yr hysbysiad hwnnw.
- 3.12 Pan fydd ffurf yr hysbysiad yn cael ei ragnodi gan Ofcom, byddai paragraffau 87(2) a 88(2) o'r Cod Newydd yn mynnu, er mwyn iddynt fod yn ddilys, ei bod yn rhaid i hysbysiadau a roddir gan Weithredwyr y Cod a rhai hysbysiadau a roddir gan bartïon eraill fod ar y ffurf a ragnodir. Fodd bynnag, mae paragraffau 88(5) a (6) yn nodi bod modd rhoi rhai hysbysiadau penodol eraill ar ffurf ar wahân i'r ffurf a ragnodir gan Ofcom (ar yr amod bod y parti sy'n rhoi'r hysbysiad yn talu am y costau canlyniadol i'r parti arall, os bydd rhai).
- 3.13 Er mwyn paratoi i'r Bil Economi Ddigidol ddod i rym, rydym felly wedi paratoi (ac nawr yn ymgynghori ynghylch) nifer o hysbysiadau templed i'w defnyddio rhwng

¹⁵ Dinas Llundain, [Pecyn Seilwaith Digidol, cytundeb fforddfraint safonol](#) cyrchwyd 15 Mawrth 2017 – adolygir a diweddarir y ddogfen hon yn rheolaidd, a chaiff ei diwygio i adlewyrchu darpariaethau'r Bil Economi Ddigidol pan fydd yn dod i rym.

Gweithredwyr y Cod a phartïon eraill. Mae fersiynau drafft o bob un o'r hysbysiadau rydym yn bwriadu eu rhagnodi ar gael yn **Atodiad 7**.¹⁶

- 3.14 Rydyn ni'n cydnabod mewn nifer o achosion bod yr hysbysiadau rydyn ni'n cynnig eu rhagnodi yn ddewisol (hy mae modd eu rhoi ond nid oes yn rhaid eu rhoi – edrychwch ar eiriad y Cod Newydd ym mharagraff 3.11 uchod). Fodd bynnag, rydym wedi dehongli ein rhwymedigaeth arfaethedig o dan baragraff 89 o'r Cod Newydd yn helaeth ac wedi ceisio darparu fersiynau drafft o hysbysiadau safonol hyd yn oed pan nad ydynt yn angenrheidiol dan y Cod Newydd mewn gwirionedd. Rydym yn gobeithio y bydd Gweithredwyr y Cod a thirfeddianwyr/meddianwyr fel ei gilydd yn teimlo bod hyn yn ddefnyddiol, ac y bydd hyn yn hwyluso pontio i drefn y Cod Newydd.
- 3.15 Fodd bynnag, rydym yn nodi mewn nifer cyfyngedig iawn o achosion, mae'n debyg y bydd gwerth cyfyngedig (os o gwbl) yn Ofcom yn rhagnodi ffurf hysbysiad dewisol. Yn benodol, rydym o'r farn na fyddai llawer o werth petai Ofcom yn rhagnodi ffurf hysbysiadau o dan baragraffau 31(1)¹⁷ a 38(4)¹⁸ y Cod Newydd oherwydd byddai cynnwys unrhyw hysbysiadau o'r fath yn benodol iawn o ran ffeithiau a byddem yn disgwyl i Weithredwyr y Cod allu paratoi'r rhain yn hawdd. Nid ydym felly'n cynnig rhagnodi ffurf unrhyw hysbysiadau ffurf safonol o dan y paragraffau penodol hyn o'r Cod Newydd.
- 3.16 Wrth baratoi'r hysbysiadau safonol sydd yn Atodiad 7, rydym wedi ystyried yr angen i sicrhau eu bod mor glir a chryno â phosibl, yn ogystal â'r angen i Weithredwyr y Cod gydymffurfio â pharagraff 87(1) y Cod Newydd wrth roi hysbysiad (hy eu bod yn egluro effaith yr hysbysiad a'r camau y mae modd i dderbynwyr eu cymryd).
- 3.17 Rydym hefyd wedi ystyried y ffaith, er bod Gweithredwyr y Cod o bosibl yn gyfarwydd â'r Cod Newydd, efallai na fydd hyn o reidrwydd yn wir i dirfeddianwyr/meddianwyr. Rydym felly wedi ceisio darparu 'Nodiadau' neu arweiniad defnyddiol, yn enwedig ar gyfer tirfeddianwyr/meddianwyr, ar ddiwedd nifer o'r hysbysiadau a ddylai eu helpu wrth anfon neu dderbyn hysbysiadau o dan y Cod Newydd.

3. *Ydych chi'n cytuno bod Ofcom wedi nodi'r holl hysbysiadau y mae angen iddo eu paratoi o dan baragraff 89 y Cod Newydd?*

4. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch cwmpas neu ddrafftio'r hysbysiadau hyn, fel y maent wedi'u nodi yn Atodiad 7?*

¹⁶ Er mwyn gwneud pethau'n haws, rydym yn nodi ein bod yn cynnig rhagnodi hysbysiadau o dan y paragraffau canlynol o'r Cod Newydd: paragraff 15(5); paragraff 19(2); paragraff 25(3); paragraff 26(1); paragraff 30(1); paragraff 32(1); paragraff 38(1); paragraff 38(2); paragraff 39(2); paragraff 40(2); paragraff 40(5); paragraff 42(5); paragraff 48(1); paragraff 49(2); paragraff 49(3); paragraff 50(2); paragraff 50(4); paragraff 50(7); paragraff 52(1); paragraff 52(2); paragraff 53(7); paragraff 66(1); paragraff 67(2); paragraff 70(2); paragraff 74(2); paragraff 77(1); paragraff 81(3); a pharagraff 81(4). Fel sy'n cael ei nodi yn Adran 2 uchod, mae'r cyfeiriadau hyn at baragraffau yn seiliedig ar y fersiwn o'r Cod newydd sydd ym [Bil HL 102 56/2](#), a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror 2017, sy'n ymgorffori diwygiadau a wnaed hyd at a gan gynnwys cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

¹⁷ hy gwrth-hysbysiad gan Weithredwr Cod ynghylch terfynu cytundeb Cod.

¹⁸ hy hysbysiad gan Weithredwr Cod yn datgelu a ydy offer ar dir yn unol â hawl Cod.

Adran 4

Y camau nesaf

Y broses ymgynghori

- 4.1 Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 10 wythnos, gan gau ddydd Iau, 1 Mehefin 2017

Datganiad terfynol

- 4.2 Bydd ein datganiad terfynol, ynghyd â fersiynau terfynol o'r Cod Ymarfer, y telerau safonol a'r hysbysiadau templed, yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r Cod Newydd (Atodlen 1 i'r Bil Economi Ddigidol) ddod i rym.

Adolygu'r Cod Ymarfer

- 4.3 Byddai paragraff 102(3) o'r Cod Newydd¹⁹ yn galluogi Ofcom i ddiwygio neu i ddisodli elfennau o'r Cod Ymarfer a thelerau safonol cysylltiedig ar adeg y byddai'n ei dewis. Yn unol â hynny, rydyn ni wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r Cod Ymarfer i sicrhau bod ei gynnwys yn dal yn addas i'r diben, yn briodol ac yn gymesur wrth ystyried datblygiadau parhaus.

¹⁹ [Bil Economi Ddigidol, Rhan 17, Adran 102\(3\), tudalen 159](#)

Atodiad 1

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm Dydd Iau, 1 Mehefin 2017**.
- A1.2 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/electronic-communications-code>. Rydyn ni hefyd yn darparu dalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>) ar gyfer ymatebion sy'n cael eu hanfon dros e-bost neu bost; a fydddech chi cystal â llenwi hon er mwyn ein helpu i gynnal eich cyfrinachedd, ac mae'n cyflymu ein gwaith. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych chi'n ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.
- A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i ecc.consultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>).
- Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.
- ECC Consultation Team
5th Floor
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
- A1.4 Os hoffech chi gyflwyno'ch ymateb mewn fformat gwahanol, (ee ffeil sain neu fideo), cysylltwch â Dan Mount ar 020 7981 3050 neu anfonwch neges e-bost i ecc.consultation@ofcom.org.uk
- A1.5 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A1.6 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.7 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

- A1.8 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Dan Mount ar 020 7981 3050, neu dros yr e-bost i ecc.consultation@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A1.9 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law.
- A1.10 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.11 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.12 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A1.13 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn nes ymlaen yn 2017.
- A1.14 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates/>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.15 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.16 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

Atodiad 2

Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom ydy'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Yr ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 3

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cod Ymarfer

1. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch cwmpas neu ddrafftio'r Cod Ymarfer fel sydd wedi'i nodi yn Atodiadau 4 a 5?*

Telerau safonol

2. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch cwmpas neu ddrafftio'r telerau safonol, fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad 6?*

Hysbysiadau templed

3. *Ydych chi'n cytuno bod Ofcom wedi nodi'r holl hysbysiadau y mae angen iddo eu paratoi o dan baragraff 89 y Cod Newydd?*
4. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch cwmpas neu ddrafftio'r hysbysiadau hyn, fel y maent wedi'u nodi yn Atodiad 7?*

Atodiad 4

Cod Ymarfer Drafft

Cyflwyniad

- 4.4 Mae gwasanaethau cyfathrebiadau electronig (fel llinellau sefydlog, ffonau symudol a gwasanaethau'r rhyngwyd) nawr yn cael eu hystyried fel gwasanaethau hanfodol. Er mwyn i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu lle mae eu hangen. Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig yn rhoi sylfaen statudol er mwyn i ddarparwyr cyfathrebiadau (a elwir yn y cyd-destun hwn yn 'Weithredwyr²⁰') allu rhoi eu Hoffer²¹ ar dir neu adeiladau sy'n berchen i unigolyn neu i sefydliad arall.
- 4.5 Yng ngoleuni anghenion cynyddol a hollbwysig cymunedau lleol (ac economi'r DU yn gyffredinol) i gael gafael ar rwydweithiau cyfathrebiadau 21ain ganrif, fel cysylltiad band eang cyflym neu gysylltiad symudol 4G (a 5G maes o law), mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig wedi cael ei ddiwygio o dan [Ddeddf Economi Ddigidol 2017] er mwyn ei gwneud hi'n haws i Weithredwyr gael mynediad i leoliadau lle mae angen iddynt wella darpariaeth, gallu a chapasiti.

Diben y Cod Ymarfer

- 4.6 Diben y Cod Ymarfer hwn, sydd hefyd wedi cael ei sefydlu o dan y [Ddeddf Economi Ddigidol], yw gosod y disgwyliadau ar gyfer ymddygiad y partiön yng nghyswllt unrhyw gytundeb a wneir o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig. Nid yw'n ganllaw i'r Cod Cyfathrebiadau Electronig na rheoliadau'r Cod, ond ei fwriad ydy eu hategu a'i gwneud hi'n symlach i Weithredwyr a Thirfeddianwyr²² ddod i gytundeb ynghylch amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â meddiannu safle. Mae cytundebau o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig yn rhwymo felly efallai y bydd Tirfeddianwyr eisiau cael cyngor proffesiynol annibynnol cyn cytuno ar gytundeb o'r fath (gweler isod).
- 4.7 Mae 'safle' yn y Cod Ymarfer yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyffredinol²³ fel unrhyw leoliad i osod Offer fel o dan neu ar ben tir agored, to adeilad, twnnel neu bostyn lamp.
- 4.8 Dylai pob parti y mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol iddynt drin ei gilydd yn broffesiynol a gyda pharch, gan gofio mai'r nod bob amser ydy gwella a chynnal gwasanaethau cyfathrebiadau hanfodol i bawb. Rhaid i Dirfeddianwyr a Gweithredwyr barchu anghenion a phryderon dilys meddianwyr tir wrth arfer hawliau

²⁰ Mae Gweithredwr yn sefydliad sydd wedi cael Pwerau Cod gan Ofcom, er enghraifft, darparwr cyfathrebiadau sy'n darparu rhwydwaith llinell sefydlog, band eang, cebl neu symudol, neu rywun sy'n darparu seilwaith sy'n cefnogi rhwydwaith o'r fath. Mae Ofcom yn cynnal rhestr o'r rheini sydd â Phwerau Cod.

²¹ Mae 'offer' yn derm cyffredinol ac mae'n cyfeirio at yr hyn sy'n cael ei ddiffinio yn y Cod Cyfathrebiadau Electronig fel offer cyfathrebiadau electronig; mae'n cynnwys eitemau fel antena ar gyfer signalau symudol, mastiau, cabinetau, ceblau, twneli a pholion telegraff.

²² Y sawl sydd â'r hawl gyfreithiol i rwymo i gytundeb gyda Gweithredwr

²³ Mae 'safle' yn gyfystyr i'r term 'Tir' yn y Cod Cyfathrebiadau Electronig fel y nodir ym mharagraff 108.

o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig. Bydd Gweithredwyr yn gyfrifol am ymddygiad unrhyw gontractwyr byddant yn eu cyfarwyddo i wneud gwaith ar eu rhan.

Hyd a Lled

4.9 Mae'r Cod Ymarfer hwn:

- Yn rhoi fframwaith cyfeirio i gefnogi Tirfeddianwyr a Gweithredwyr i lunio, datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol, er budd defnyddwyr pob gwasanaeth cyfathrebiadau.
- Mae'n nodi beth dylai Tirfeddianwyr a Gweithredwyr ddisgwyl gan ei gilydd yng nghyd-destun:
 - Sefydlu cytundebau newydd er mwyn gosod offer;
 - Mynediad parhaus i weithredu, cynnal a chadw ac uwchraddio safleoedd ac offer cyfredol;
 - Datgomisiynu safleoedd nad oes mo'u hangen mwyach;
 - Ailddatblygu safleoedd;
- Mae'n rhoi fframwaith ar gyfer darparu safle, lle mae'r broses fasnachol o ddod i gytundeb a chynnal cytundeb yn gallu ystyried holl ofynion ymarferol y naill barti a'r llall;
- Mae'n gosod llinellau cyfathrebu clir er mwyn dyrchafu materion sy'n destun anghydfod;
- **Nid** yw'n rhoi sylw i agweddau ariannol y berthynas rhwng y Tirfeddiannwr a'r Gweithredwr

4.10 Er bod y Cod Ymarfer yn rhoi rhai egwyddorion a disgwyliadau clir ynghylch sut dylai Tirfeddianwyr a Gweithredwyr ymddwyn tuag at ei gilydd, dylid nodi bod rhai trefniadau arbennig ar waith (ee tir trafndiaeth, priffordd gyhoeddus sy'n cael ei gynnal a dyfroedd llanw), lle gall ystyriaethau penodol gwahanol fod yn berthnasol.

4.11 Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i ystod eang o sefyllfaoedd, o adeiladu mast symudol llawn i osod dim ond un polyn telegraff neu ddarn byr iawn o gebl a dylid nodi na fydd angen yr holl elfennau gweithdrefnol ym mhob un achos.

Cyfathrebu a gwybodaeth gyswllt

4.12 Yn ganolog i ddiben y Cod Ymarfer hwn mae cynnal cyfathrebu da rhwng y partion i hwyluso cysylltiadau gwaith da.

Sicrhau bod gwybodaeth gyswllt yn ddiweddar

4.13 Dylai'r Gweithredwr sicrhau bod gan y Tirfeddiannwr ac unrhyw Feddiannwr perthnasol o'r safle neu lwybrau mynediad i'r safle **wybodaeth gyswllt ddiweddar**, er mwyn i'r Tirfeddiannwr allu asesu'n hawdd pa bwynt cyswllt i'w ddefnyddio yn yr holl amgylchiadau a all godi, fel:

- Os bydd argyfwng

- Ar gyfer materion rheoli neu ystâd arferol
- I newid neu gadarnhau trefniadau mynediad

4.14 Maes o law, dylai'r Tirfeddiannwr a'r Meddiannwr sicrhau bod y Gweithredwr yn cael yr wybodaeth gyswllt bresennol (ac yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i rifau ffôn, cyfeiriadau e-bost ac ati) er mwyn i'r Gweithredwr wybod pa bwynt cyswllt dylid ei ddefnyddio yn yr holl amgylchiadau a allai godi.

Cyngor proffesiynol

- 4.15 Caiff Tirfeddiannwyr a Gweithredwyr ddewis trafod â'i gilydd yn uniongyrchol. Fel arall, efallai bydd y partïon eisiau gofyn am gyngor proffesiynol gan rywun sydd â chymwysterau a phrofiad addas fel arolygwr neu brisiwr. Gallai hyn hefyd olygu cael cyngor cyfreithiol cyn cytuno ar gytundeb yn derfynol²⁴.
- 4.16 Bydd yn rhaid cytuno ar ffioedd cynghorwyr ymlaen llaw fel rhan o delerau ymgysylltu'r cynghorydd.
- 4.17 Ym mhob achos bydd Gweithredwyr a Thirfeddiannwyr yn gweithredu mewn ffordd gyson, deg ac agored gyda'i gilydd yng nghyswllt unrhyw waith arfaethedig.

Cytundebau newydd er mwyn gosod Offer

- 4.18 Efallai bydd angen Offer ychwanegol am nifer o resymau, fel:
- Y galw gan gwsmeriaid
 - Er mwyn sicrhau darpariaeth i ardaloedd newydd
 - Er mwyn darparu capasiti rhwydwaith ychwanegol
 - Er mwyn darparu gwasanaethau newydd
 - I ddisodli safleoedd sydd wedi darfod neu safleoedd sy'n cael eu hailddatblygu
- 4.19 Pan fydd eisiau defnyddio offer newydd bydd y Gweithredwyr yn dilyn cyfres o gamau, gan ddibynnu ar natur yr offer sydd i'w osod. Ar gyfer gosod mân offer (er enghraifft, gosod polyn telegraff), mae modd dod i gytundeb ar delerau ac amodau safonol a heb fod angen ymweld â'r safle. Ar gyfer sefyllfaoedd sy'n fwy cymhleth (fel mast symudol newydd), efallai bydd angen ymweld â'r safle er mwyn asesu pa mor addas yw'r lleoliad ac i gael rhagor o wybodaeth gefndirol.

²⁴ Mae rhestr o gynghorwyr o'r fath yn gallu cael ei darparu gan gyrrff proffesiynol fel Cymdeithas Ganolog y Prswyr Amaethyddol, Cymdeithas y Gyfraith, Cymdeithas y Gyfraith yr Alban, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Chymdeithas Prswyr a Chanolwyr Amaethyddol yr Alban.

Cam 1: Arolwg Safle

- 4.20 Ar ôl penderfynu bod angen Offer newydd mewn ardal benodol, bydd y Gweithredwr yn nodi dewisiadau gwahanol ar gyfer safleoedd newydd ac yn arolygu atebion posibl ar sail ystyriaethau technegol a chynllunio.
- 4.21 Er bod mynediad i fapiau, delweddau lloeren, cynlluniau adeiladau ac ati yn golygu bod modd gwneud llawer o'r gwaith ynghylch dichonoldeb y safle o bell, efallai y bydd angen mynediad uniongyrchol i safle posibl a'r gallu i drafod materion ymarferol â Thirfeddianwyr.
- 4.22 Pan fydd angen mynediad, dylai'r Gweithredwr ofyn am fynediad o'r fath yn ysgrifenedig, gan nodi'r materion sydd yn Atodiad A, pan fo hynny'n berthnasol. Yn gyffredinol bydd y Gweithredwr yn gofyn bod mynediad yn cael ei roi cyn pen cyfnod rhesymol (ee gall hyn fod yn gyfnod o ryw 7 diwrnod). Bydd y cais am fynediad yn nodi natur yr ymweliad ac amlinelliad sylfaenol o'r hyn y mae cynnig i'w osod.
- 4.23 I sicrhau bod yr arolwg safle yn gynhyrchiol, gall y partïon ddewis cwrdd ar y safle. Ar yr adeg briodol yn y broses asesu, dylai'r Tirfeddianwr, ar gais y Gweithredwr, geisio darparu gwybodaeth berthnasol fel:
- Pwy sy'n berchen ar y safle/yn meddiannu'r safle;
 - Defnydd y safle ar hyn o bryd;
 - A oes unrhyw drefniadau rheoli aml-feddiannaeth ar waith
 - Unrhyw newid sydd wedi'i gynllunio neu unrhyw newid a fwriedir mewn perchnogaeth, meddiannaeth neu ddefnydd;
 - Unrhyw gynigion a allai fod i newid defnydd neu ddatblygu'r tir, gan gynnwys a oes unrhyw ganiatadau cynllunio cyfredol mewn lle;
 - Manylion pibelli, draeniau, ceblau neu strwythurau ac ati hysbys;
 - A oes unrhyw ddeunyddiau niweidiol, hylif, llystyfiant, safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, fflora, ffawna wedi'u diogelu, adeiladau rhestredig, ystyriaethau archaeolegol neu hawliau tramwy cyhoeddus ar y safle neu wrth y safle.

Cam 2: Ymgynghori a chytuno

- 4.24 Mae'r math o offer mae modd ei ddefnyddio ar, dros neu o dan safle yn gallu amrywio'n enfawr. Gallai gynnwys, er enghraifft:
- Gosod polyn telegraff mewn cae;
 - Gosod cebl mewn pibell bresennol mewn canolfan siopa;
 - Gosod system antena ar gyfer darpariaeth symudol ar do bloc o swyddfeydd;
 - Codi tŵr latis mewn coed
- 4.25 Gallai pob un o'r enghreifftiau hyn ofyn am brosesau ymgynghori gwahanol.

- 4.26 Ar ôl canfod lleoliad addas ar gyfer gosod offer, bydd y Gweithredwr yn symud ymlaen i sicrhau unrhyw ganiatadau angenrheidiol ar gyfer y safle, yn unol â'r rheoliadau perthnasol, gan ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a phartion eraill, pan fydd angen, ac unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer perthnasol²⁵.
- 4.27 Pan fydd cynnig yn syml, gydag offer safonol, fel un cabinet neu bolyn, gall y Gweithredwr anfon cytundeb ysgrifenedig syml i'r Tirfeddiannwr gyda chais i'w lofnodi a'i ddychwelyd. Pan fydd y cynnig yn llai syml, efallai y bydd y Gweithredwr yn anfon crynodeb o delerau'r cytundeb arfaethedig i'r Tirfeddiannwr eu hystyried a'u hadolygu. Mewn achosion o'r fath gall y dogfennau gynnwys, er enghraifft, cynllun yn dangos y dyluniad arfaethedig, llwybrau mynediad a llwybrau ceblau; cyfrifiadau llwytho ar gyfer safleoedd ar ben toeau; a chynigion ar gyfer darparu trydan.
- 4.28 Cyn cwblhau unrhyw gytundeb, dylai'r Tirfeddiannwr a'r Gweithredwr gytuno ar drefniadau mynediad ar gyfer adeiladu, gosod, gwaith cynnal a chadw dilynol a fydd wedi'i gynllunio, uwchraddio a chynnal a chadw brys i drwsio namau sy'n effeithio ar y gwasanaeth. Mae'r pynciau sydd i'w trafod yn y cytundebau mynediad wedi cael eu gosod yn **Atodiad B**.
- 4.29 Er bod y Cod Cyfathrebiadau Electronig yn rhoi mecanwaith i'r llys orfodi telerau meddiannu ar y Tirfeddiannwr a'r Gweithredwr, dylai'r partion wneud pob ymdrech i ddod i gytundeb gwirfoddol yn gyntaf.
- 4.30 Er y dylid disgwyl i rai cytundebau gael eu cwblhau cyn pen ychydig wythnosau, ac efallai y byddai rhai achosion syml hyd yn oed yn cael eu llofnodi ar y safle ar y cam arolygu, efallai y bydd cytundebau ar gyfer trefniadau mwy neu fwy cymhleth yn cymryd mwy o amser, ond ym mhob achos dylai'r partion geisio ymateb yn ddiymdroi i ohebiaeth gan yr ochr arall a cheisio cwblhau'r broses mor gyflym ag sy'n bosibl.
- 4.31 Os na fydd y partion yn cytuno ar delerau cyn pen cyfnod rhesymol, mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig yn darparu ar gyfer proses lle gall llys orfodi telerau meddiannaeth a/neu gyflwyno hawliau cod yn unol â pharagraff 19 y Cod Cyfathrebiadau Electronig. Ond mae'n rhaid pwysleisio mai un o brif ddibenion y Cod Ymarfer hwn ydy sefydlu proses wirfoddol, sy'n osgoi gorfod mynd i'r llys.

Cam 3: Y cam gosod

- 4.32 Pan fydd y Gweithredwr yn gweithio ar eiddo Tirfeddiannwr bydd yn ceisio creu cyn lleied â phosibl o amhariad ac anhwylystod. Dylai'r gweithredwr roi gwybod i'r Tirfeddiannwr am y canlynol:
- Manylion cyswllt ar gyfer y Gweithredwr, enw'r contractwr sy'n rheoli'r cynllun a'r sawl y gall y Tirfeddiannwr ddyrchafu materion sy'n peri pryder iddynt
 - Lluniadau sy'n dangos manylion yr offer sydd i'w gosod gyda disgrifiad ysgrifenedig o'r gwaith

²⁵ Er enghraifft: Cod Ymarfer Gorau ar Ddatblygu Rhwydweithiau Symudol yn Lloegr,

<http://www.mobileuk.org/codes-of-practice.html>

- Unrhyw ofyniad i allu cael mynediad ar draws tir arall (os yw'n perthyn i'r Tirfeddiannwr neu i drydydd parti)
 - Amseriad y gwaith, gan gynnwys amcan o'r dyddiad dechrau a hyd y gwaith
 - Amseroedd gweithio
 - Gweithdrefnau ar gyfer diogelu eiddo'r Tirfeddiannwr (ee da byw)
- 4.33 Pan fo'n berthnasol, bydd y Gweithredwr yn cadw cofnod ffotograffig wedi'i ddyddio o gyflwr y safle cyn dechrau'r gwaith ac ar ôl cwblhau'r gwaith

Cymdogion a meddianwyr eraill

- 4.34 Efallai bydd angen ymgynghori ag unigolion sydd â diddordeb mewn tir sydd wrth ymyl safle arfaethedig yn unol â rheoliadau cenedlaethol, canllawiau ac unrhyw Godau Ymarfer perthnasol²⁶.
- 4.35 Rhaid i weithredwyr hefyd drafod trefniadau mynediad â'r perchennog a/neu feddiannydd y tir cyffiniol, lle mae angen defnyddio'r tir hwnnw ar gyfer adeiladu a/neu gynnal y safle (gan ddefnyddio pwerau'r Cod Cyfathrebiadau Electronig, os na ellir dod i gytundeb).
- 4.36 Bydd unrhyw ofynion ar gyfer mynediad gan y Gweithredwr yng nghyswllt tir cyffiniol o'r fath yn trafod y materion sydd yn Atodiad B (hy yr un ystyriaethau ag ar gyfer y Tirfeddiannwr, pan fo'n berthnasol).

Mynediad parhaus i weithredu, cynnal a chadw ac uwchraddio safleoedd ac offer cyfredol

- 4.37 Mae pob safle cyfathrebiadau electronig yn rhan hollbwysig o rwydwaith ehangach. Mae safleoedd unigol yn darparu darpariaeth, capasiti a swyddogaethau i'r rhwydwaith ehangach hwnnw ac mae'n rhaid i Weithredwyr gael mynediad i'w hoffer er mwyn gallu cynnal gwasanaeth o ansawdd i'w cwsmeriaid. Yn achos namau sy'n effeithio ar wasanaeth, bydd yn rhaid cael mynediad cyn gynted ag sy'n bosibl.
- 4.38 Fel y nodir yng Nghyfnod Ymgynghori Cam 2, rhaid i unrhyw gytundebau rhwng y Gweithredwr a'r Tirfeddiannwr nodi sut bydd modd cael mynediad i'r safleoedd ar gyfer anghenion gweithredol. Mae'r materion sydd i'w trafod yng nghyswllt mynediad wedi cael eu nodi yn **Atodiad B**. Pan fydd angen, dylai Gweithredwyr a Thirfeddiannwyr gwrdd, cyn ymrwymo i gontract, er mwyn trafod y prosesau a'r llwybrau mynediad sy'n cael eu ffafrio a chytuno ar ddisgwyliadau clir ynghylch beth fydd yn digwydd pan fydd eisiau mynediad.

²⁶ Er enghraifft: Y Cod Ymarfer ar leoli cabinetau a pholion a'r Cod Ymarfer Gorau ar Ddatblygu Rhwydweithiau Symudol yn Lloegr, <http://www.mobileuk.org/codes-of-practice.html>

- 4.39 Yn achos argyfyngau, er enghraifft pan fydd nam sy'n effeithio ar y gwasanaeth neu nid ydy'r Offer yn gweithio, mae angen i Weithredwyr allu cyrraedd yr Offer yn ddiymdroi, er mwyn datrys y broblem a chynnal y gwasanaeth i'r cwsmeriaid, gan gynnwys y gallu i ffonio'r gwasanaethau brys. Pan fo'n bosibl, bydd Gweithredwyr yn cysylltu â'r Tirfeddiannwr i egluro pryd a pham mae angen mynediad a bydd Tirfeddiannwyr yn ceisio cydweithredu ag adfer y gwasanaeth.
- 4.40 Dylid trefnu mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol er mwyn i'r Gweithredwyr roi digon o rybudd yn unol â'r trefniadau mynediad y cytunwyd arnynt gyda'r Tirfeddiannwr.
- 4.41 Pan fydd Gweithredwyr yn rhannu safle yn ffisegol, ac nad oes angen unrhyw gydsyniad ychwanegol o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig, bydd y Gweithredwyr serch hynny yn rhoi gwybod i'r Tirfeddiannwyr am enw'r rhai eraill sy'n rhannu, er mwyn i'r Tirfeddiannwr, am resymau diogelwch, allu gwybod pwy sy'n meddiannu'r safle yn gyfreithlon.
- 4.42 Pan fydd angen mynediad i rannau eraill o'r tir sy'n berchen i'r Tirfeddiannwr, er enghraifft pan fydd eisiau ardal o dir er mwyn defnyddio craen neu graen casglu ffrwythau, dylai'r trefniadau mynediad drafod sefyllfaoedd o'r fath a sicrhau y bydd y Gweithredwr yn dychwelyd y tir i'r cyflwr roedd ynddo cyn defnyddio'r tir neu gael mynediad i'r tir.
- 4.43 Bydd Gweithredwyr yn ceisio sicrhau bod unrhyw un sy'n cael mynediad i safle ar eu rhan:
- Yn cario manylion adnabod a fydd yn cynnwys llun
 - Yn gallu egluro pam eu bod yno ac i bwy maen nhw'n gweithio
 - Yn gallu dweud wrth y Tirfeddiannwyr pwy ddylen nhw gysylltu â nhw yn y Gweithredwr i gael rhagor o wybodaeth neu i roi sylw ynghylch unrhyw ymweliad
- 4.44 Ar gais, bydd gweithredwyr yn darparu dilysiad ynghylch pa gontractwr oedd ar y safle ar unrhyw adeg benodol a chadarnhad ynghylch pam roedden nhw yno – ee l arolygu, cynnal a chadw, gwneud gwaith trwsio brys neu uwchraddio ac ati.
- 4.45 Bydd Gweithredwyr yn glynu wrth unrhyw ofynion cenedlaethol ar gyfer rheoli risgiau sy'n benodol i'r lleoliad. Gall hyn gynnwys clefydau hysbysadwy (fel Clwy'r Traed a'r Genau, Ffliw Adar ac ati). Ar gyfer safleoedd mewn lleoliadau sensitif, gall gynnwys trefnu mynediad gyda chwmni i ddiogelu ardaloedd. Bydd Gweithredwyr yn cydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau rhesymol a weithredir gan Dirfeddiannwyr ar gyfer y dibenion hyn. Cymaint ag y bo modd bydd Tirfeddiannwyr yn cadw'r gallu i Weithredwyr gael mynediad i'w heiddo, yn enwedig os bydd argyfwng gweithredol.

Datgomisiynu safleoedd nad oes mo'u hangen mwyach

- 4.46 Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig yn darparu i Dirfeddiannwyr wneud cais i symud offer o'r safle, os nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach ac nad yw'n debyg y caiff ei ddefnyddio eto.
- 4.47 Fel egwyddor gyffredinol, bydd Gweithredwyr yn sicrhau bod safleoedd segur yn cael eu datgomisiynu cyn pen cyfnod rhesymol ar ôl rhoi'r gorau i'w defnyddio. Fodd bynnag, os yw'r offer o dan y ddaear (fel pibellau ar gyfer ceblau), efallai y bydd hi'n

well i'r partiön os caiff yr Offer ei ddiogelu a'i adael yn ei leoliad. Dylai Gweithredwyr drafod cynigion datgomisiynu â Thirfeddiannwyr er mwyn cytuno ar y ffordd ymlaen.

- 4.48 Pan fydd cais gan Dirfeddiannwr i dynnu offer nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach, bydd y Gweithredwr, cyn pen cyfnod rhesymol, yn ymateb, naill ai drwy egluro y bydd dal angen yr offer neu drwy osod dyddiad pan fydd yr offer yn cael ei wneud yn ddiogel neu'n cael ei gymryd oddi yno, ac y caiff y safle ei ddychwelyd i'w ddefnydd gwreiddiol, os yw hynny'n berthnasol.

Arall

Adnewyddu safleoedd presennol a'r Cod Cyfathrebiadau Electronig

- 4.49 Pan fydd cytundeb safle presennol ar fin dod i ben, bydd y partiön yn ceisio cytuno ar delerau er mwyn parhau i ddefnyddio'r safle cyn i'r cytundeb presennol ddod i ben.
- 4.50 Dylai partiön ddechrau trafodaethau ddigon ymlaen llaw cyn i'r cytundeb presennol ddod i ben er mwyn rhoi digon o amser i gytuno ar delerau. Droeon, efallai na fydd angen newid y telerau presennol, ac felly ni fydd y cyfnod i gytuno ar delerau newydd yn hir.

Trwsio eiddo Tirfeddiannwr

- 4.51 O bryd i'w gilydd bydd yn rhaid i Dirfeddiannwyr wneud gwaith trwsio hanfodol i'w heiddo ac efallai y bydd angen symud yr offer dros dro er mwyn gallu gwneud y gwaith hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y partiön yn trafod mewn ewyllys da i allu cwblhau'r gwaith, er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar wasanaethau cyfathrebu cyhoeddus.

Ailddatblygu gan y Tirfeddiannwr

- 4.52 Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig yn darparu i Dirfeddiannwyr ailddatblygu eu heiddo (Paragraffau 30-31), gan fynnu y dylai'r Tirfeddiannwr roi 18 mis o rybudd o'r bwriad i ailddatblygu. Bwriedir i baragraffau 30-31 o'r Cod Cyfathrebiadau Electronig gael eu defnyddio gan Dirfeddiannwyr sydd wir yn bwriadu ailddatblygu eu heiddo (a bod tystiolaeth o hynny, drwy gydsyniad cynllunio perthnasol er enghraifft). Caiff Tirfeddiannwyr eu hannog i roi cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl i Weithredwyr er mwyn gallu caniatáu digon o amser i'r Gweithredwr ddod o hyd i safleoedd addas eraill.
- 4.53 Caiff Gweithredwyr wneud cais i weld tystiolaeth o'r cynlluniau i ailddatblygu ond dylent weithredu'n rhesymol bob amser, er mwyn peidio â llesteirio cynnydd y Tirfeddiannwr. Er enghraifft, dylai Gweithredwyr weithredu'n amserol er mwyn dod o hyd i safleoedd newydd addas gyda'r prif nod o gynnal gwasanaethau cyfathrebu yn yr ardal leol a gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr.
- 4.54 Pan fydd Tirfeddiannwr yn mynd ar drywydd cyfle i ailddatblygu, dylid bob amser ystyried ymgorffori'r offer cyfathrebu yn eiddo'r Tirfeddiannwr os ydy hyn yn ddewis ymarferol.

Gweithdrefnau dyrchafu

- 4.55 Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig yn gosod gweithdrefnau ffurfiol i ddatrys anghydfod.
- 4.56 Serch hynny, pan fydd anghydfod yn codi, dylai'r partion geisio eu datrys yn anffurfiol (hy heb fynd i ymgyfreitha) yn y lle cyntaf. Serch hynny, efallai y bydd adegau pan fydd yn rhaid i un parti neu'r llall gyflwyno hysbysiadau cyfreithiol, ar yr un pryd â cheisio mynd ar drywydd ateb anffurfiol.
- 4.57 Er mwyn hwyluso'r broses hon, bydd Gweithredwyr a Thirfeddianwyr yn darparu i'w gilydd a, phan fo'n berthnasol, y rheini sydd â budd mewn tir cyffiniol, fanylion cyswllt ar gyfer yr unigolyn perthnasol, er mwyn codi materion sy'n destun anghydfod. Gall y materion hynny gynnwys methu â dilyn y Cod Ymarfer.

Atodiad 5

Atodlenni i'r Cod Ymarfer

Atodlen A – Cais am fynediad ar gyfer arolwg

4.58 Dylai Gweithredwr sydd eisiau cael mynediad i dir er mwyn arolygu pa mor addas ydyw i osod offer cyfathrebiadau electronig gysylltu â darpar dirfeddiannwr a darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Pwy ydy'r gweithredwr, pwyntiau cyswllt ar gyfer y gweithredwr ac unrhyw asiant
- Meysydd chwilio er mwyn gosod offer posibl
- Gofynion ar gyfer arolwg cychwynnol:
 - Pa fynediad sydd ei angen?
 - Gyda pha offer?
 - Dros pa gyfnod?
- Disgrifiad o'r offer tebygol ac unrhyw gysylltiadau ategol sydd eu hangen, er enghraifft cysylltiadau pŵer
- Cadarnhad ynghylch a fyddai angen cydsyniad cynllunio
- Effaith debygol offer ar y safle a/neu ar dir cyffiniol, er enghraifft gofynion llinell welediad, ymyriant posibl gydag offer sydd eisoes yno ac ati.
- Math o gytundeb (ee dros dro neu dymor hir)
- Yr amserlen arfaethedig ar gyfer adeiladu/gosod
- Gall y llythyr hefyd gynnwys gwybodaeth ynghylch pa gamau gallai Gweithredwr eu cymryd, os bydd y Tirfeddiannwr yn methu ymateb

4.59 Mewn rhai amgylchiadau, pan fydd Gweithredwr yn arolygu eiddo cymdogol, a'i bod yn dod yn amlwg y byddai'r Offer yn well ar eiddo cyffiniol, efallai y bydd hi'n bosibl cytuno â'r Tirfeddiannwr i gwblhau arolwg ar unwaith ac wedyn dilyn hynny'n ysgrifenedig ar ôl i'r arolwg gael ei gwblhau.

Atodlen B – Pwyntiau allweddol ar gyfer trefniadau mynediad

4.60 Dylai trefniadau mynediad drafod y pwyntiau canlynol, pan fo'n briodol²⁷:

²⁷ Nodyn: ar gyfer gosod nifer o linellau sefydlog, bydd hyn yn cael ei drafod yn fforddfraint safonol Gweithredwr

- Manylion cyswllt (gan gynnwys mewn argyfwng) ar gyfer:
 - Y Gweithredwr
 - Y Tirfeddiannwr
 - Unrhyw feddiannwr o'r tir, os yw'n wahanol i'r Tirfeddiannwr
- Disgrifiad o'r trefniadau mynediad (gan gynnwys unrhyw ffactorau y tu allan i oriau swyddfa neu ar benwythnos (ee ar gyfer eiddo busnes sydd ar gau dros y penwythnos)
- Adennill costau rhesymol (ee os oes angen cael goruchwyliwr mewn lleoliadau sensitif)
- Ymrwymiad gan y Gweithredwr i drwsio unrhyw ddifrod i eiddo'r Tirfeddiannwr
- Hysbysu'r Gweithredwr ynghylch unrhyw ystyriaethau penodol ar y safle, er enghraifft:
 - Gofynion ar gyfer goruchwyliaeth mewn safleoedd sensitif neu beryglus
 - Trefniadau bio-ddiogelwch
 - Unrhyw gynlluniau amgylcheddol perthnasol (lle cymerwyd gofal i beidio â thorri rheolau'r cynllun)
- Parcio a llwybrau mynediad ar draws tir neu drwy adeiladau ar gyfer personél adeiladu a chynnal a chadw, cerbydau, cyfarpar ac offer.
- Glynu wrth y Cod Cefn Gwlad, pan fo hynny'n berthnasol

Atodiad 6

Telerau Safonol Drafft

[Enw'r Grantwr]

a

[Enw'r Gweithredwr]

CYTUNDEB COD

sy'n ymwneud â gosod offer cyfathrebiadau electronig yn
[cyfeiriad]

Caiff y Cytundeb hwn ei wneud ar **[Rhowch y dyddiad]** rhwng:

- (1) **[Rhowch yr enw]**, y mae eu **[cyfeiriad/swyddfa gofrestrdig]** yn **[Rhowch y cyfeiriad]** (y “Grantwr”); a
- (2) **[Rhowch yr enw]**, y mae eu swyddfa gofrestrdig yn **[Rhowch y cyfeiriad]** (y “Gweithredwr”).

CRONICLIADAU

- (A) Mae'r Cod (fel sy'n cael ei ddiffinio yng nghymal 1) yn hwyluso defnyddio offer cyfathrebiadau electronig gan y rheini y caiff ei ddefnyddio yn eu hachos.
- (B) Mae'r Cod yn berthnasol i'r Gweithredwr yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 106 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
- (C) Y Grantwr ydy meddiannwr tir penodol.
- (D) Mae'r Cytundeb hwn yn gytundeb yn unol â pharagraff 9 o Ran 2 o'r Cod. Mae'n gosod ar ba sail contractiol y mae'r Grantwr yn barod i drosglwyddo hawliau cod mewn perthynas â'r tir hwnnw i'r Gweithredwr.

CYTUNIR FEL A GANLYN:

1. DIFFINIADAU A DEHONGLI

1.1. Yn y Cytundeb hwn, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyron canlynol:

“**Deddf**” mae hyn yn golygu Deddf Cyfathrebiadau 2003;

“**Offer**” mae hyn yn golygu'r Offer Cyfathrebiadau Electronig sy'n cael eu disgrifio yn Atodlen 1, a phennir ei fod yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau neu uwchraddio yn y dyfodol i'r Offer a fydd yn cael ei wneud yn unol â'r Cytundeb hwn a/neu yn unol â'r Cod;

“**Cod**” mae'n golygu'r cod cyfathrebiadau electronig fel sy'n cael ei bennu yn Atodlen 3A i'r Ddeddf;

“**Hawliau Cod**” mae hyn yn golygu'r hawliau sydd yng nghymal **[2.1]**;

“**Offer Cyfathrebiadau Electronig**” mae hyn yn golygu'r ystyr a briodolir i'r term hwnnw ym mharagraff 5 y Cod;

“**Tir**” mae'n golygu'r tir yn **[rhowch y cyfeiriad]** **[ac sydd wedi'i farcio ar y cynllun sydd wedi'i atodi yn Atodlen 2]**;

“**Gweithredwr**” mae hyn yn golygu unrhyw un y mae'r Cod yn berthnasol iddynt drwy gyfarwyddyd o dan adran 106 o'r Ddeddf; a

“**Tymor**” mae hyn yn golygu'r cyfnod pan fydd y Cytundeb hwn mewn grym.

1.2 Yn y Cytundeb hwn, oni nodi yn glir fel arall:

- (a) mae cyfeiriad at y naill barti neu'r llall yn cynnwys cyflogeion, asiantau ac is-gontractwyr y parti hwnnw;
- (b) mae cyfeiriad at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys y statud neu'r ddarpariaeth statudol hynny fel y mae wedi'i ddiwygio, ei ail-ddeddfu, ei gyfuno neu ei ddisodli;
- (c) mae cyfeiriad at gymal neu atodlen yn cyfeirio at y cymal neu'r atodlen berthnasol yn y Cytundeb hwn;
- (d) mae geiriau unigol yn cyfeirio at y lluosog ac fel arall.

2. HAWLIAU'R GWEITHREDWR

2.1. Wrth ystyried y cyfamodau sydd yng nghymal [4] y Cytundeb hwn [a thalu'r swm a nodir yng nghymal [3]], drwy hyn mae'r Grantwr yn cytuno y bydd y Gweithredwr yn cael yr hawl dros y Tymor:

- (a) i osod yr Offer ar, o dan neu dros y Tir;
- (b) i gadw wedi'i osod yr Offer sydd ar, o dan neu dros y Tir;
- (c) i arolygu, cynnal a chadw, addasu, newid, trwsio, gweithredu neu (yn amodol ar gymal [2.3]) uwchraddio'r Offer sydd ar, o dan neu dros y Tir;
- (d) i wneud unrhyw waith ar y Tir ar gyfer neu mewn cysylltiad â gosod yr Offer ar, o dan neu dros y Tir [neu osod Offer Cyfathrebiadau Electronig yn rhywle arall];
- (e) i wneud unrhyw waith ar y Tir ar gyfer neu mewn cysylltiad â chynnal a chadw, addasu, newid, trwsio, gweithredu neu (yn amodol ar gymal [2.3]), uwchraddio'r Offer sydd ar, o dan neu dros y Tir [neu unrhyw Offer Cyfathrebiadau Electronig yn rhywle arall];
- (f) i fynd ar y Tir i arolygu, cynnal a chadw, addasu, newid, trwsio, gweithredu neu (yn amodol ar gymal [2.3]) uwchraddio'r Offer sydd ar, o dan neu dros y Tir [neu unrhyw Offer Cyfathrebiadau Electronig yn rhywle arall];
- (g) i gysylltu'r Offer i gyflenwad pŵer;

- (h) i ymyrryd â neu rwystro ffordd fynediad i neu o'r Tir (os ydy'r Offer ar, o dan neu dros y Tir ai peidio);
- (i) i docio neu dorri neu ofyn i rywun arall docio neu dorri unrhyw goeden neu lystyfiant sy'n ymyrryd â neu a allai ymyrryd ag [unrhyw Offer Cyfathrebiadau Electronig/yr Offer],

(“**Hawliau'r Cod**” gyda'i gilydd).

2.2. Yn amodol ar gymal [2.3], efallai y bydd y Gweithredwr hefyd eisïau rhannu defnydd o'r Offer â Gweithredwr arall, a gwneud unrhyw waith i'r Offer er mwyn galluogi'r rhannu hwnnw.

2.3. Caiff y Gweithredwr ond uwchraddio neu rannu'r Offer (ac ymarfer yr hawliau cysylltiedig sydd wedi'u nodi yng nghymalau [2.1(e), 2.1(f) a 2.2]) os:

- (a) na fydd unrhyw newidiadau i'r Offer o ganlyniad i'r uwchraddio neu'r rhannu yn cael unrhyw effaith negyddol, neu ddim mwy nag effaith negyddol finimal, ar ei ymddangosiad;
- (b) na fydd yr uwchraddio neu'r rhannu yn rhoi unrhyw faich ychwanegol ar y Grantwr, gan gynnwys:
 - (j) unrhyw beth sy'n cael effaith niweidiol ychwanegol ar fwynhad y Grantwr o'r Tir; neu
 - (ii) unrhyw beth sy'n achosi colled, difrod neu gost ychwanegol i'r Grantwr.

2.4. Mae modd i'r hawl mynediad a nodir yng nghymal [2.1(f)] gael ei ymarfer gan y Gweithredwr gyda neu heb weithwyr, cerbydau (pan fo'n briodol), cyfarpar neu beiriannau.

3. [TÂL

Mae'r Gweithredwr yn cytuno y bydd yn talu i'r Grantwr, mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, [*Rhowch y swm*] o bunnoedd (£[*Rhowch y swm*]) [*y flwyddyn / ar gyfer y Tymor*].]

4. RHWYMEDIGAETHAU'R GWEITHREDWR

4.1. Mae'r Gweithredwr yn cyfamodi gyda'r Grantwr y bydd yn:

- (a) ac eithrio mewn [*argyfwng*²⁸], yn rhoi i'r Grantwr dim llai na saith niwrnod o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw o'i fwriad i ddod ar y Tir;

²⁸ Efallai y bydd y partïon yn dymuno diffinio beth sydd yn “argyfwng”.

- (b) os bydd [argyfwng], yn ceisio cysylltu â'r Grantwr (a all fod yn gyfathrebu electronig neu ar lafar) cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn rhoi gwybod iddo:
- i) bod y Gweithredwr yn bwriadu dod ar y Tir, neu ei fod wedi dod ar y Tir;
 - ii) pam bod angen mynediad; a
 - iii) pryd y digwyddodd y mynediad neu pryd y mae bwriad iddo ddigwydd.
- (c) fel arall ymarfer ei hawl i ddod ar y tir yn unol â'r trefniadau mynediad sydd wedi'u nodi yn Atodlen [3] y Cytundeb hwn;
- (d) ymarfer ei Hawliau Cod mewn ffordd briodol a gweithgar gan gymryd pob gofal rhesymol er mwyn osgoi rhwystrau neu ymyrraeth â'r defnydd o'r Tir neu unrhyw dir cyffiniol ac i achosi cyn lleied o ddifrod, niwsans ac anhwylystod ag sy'n bosibl i'r Grantwr ac unrhyw feddianwyr tir cyffiniol;
- (e) gwneud cyn lleied o ddifrod ffisegol ag sy'n rhesymol ymarferol wrth ymarfer ei Hawliau Cod a, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, trwsio i foddhad rhesymol y Grantwr yr holl ddifrod sydd wedi cael ei achosi i'r Tir neu i unrhyw dir cyffiniol;
- (f) ymarfer ei Hawliau Cod a defnyddio a gweithredu'r Offer yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;
- (g) cael a chynnal unrhyw gysyniadau angenrheidiol ar gyfer gosod a chadw'r Offer, darparu tystiolaeth o unrhyw gydsyniadau o'r fath ar gais y Grantwr a chynnal yr holl waith yn unol â chysyniadau o'r fath;
- (h) cynnal a chadw'r Offer mewn cyflwr da ac fel na fydd yn achosi perygl i'r Grantwr, ei gyflogeion neu ei eiddo, na meddianwyr unrhyw dir cyffiniol;
- (i) talu yr holl ardrethi a ffioedd eraill y gellir eu codi mewn perthynas â'r Offer neu ymarfer ei Hawliau Cod; a
- (j) cynnal yswiriant gyda chwmni yswiriant parchus yn erbyn unrhyw atebolrwydd i'r cyhoedd neu unrhyw atebolrwydd trydydd parti arall yng nghyswllt unrhyw anaf, marwolaeth, colled neu ddifrod i unrhyw unigolyn neu eiddo sy'n perthyn i unrhyw drydydd parti sy'n deillio o'r Gweithredwr yn ymarfer yr hawliau a roddir o dan y Cytundeb hwn, a rhoi manylion yswiriant o'r fath a thystiolaeth ei fod mewn grym i'r Grantwr ar gais rhesymol.

5. RHWYMEDIGAETHAU'R GRANTWR

5.1. Mae'r Grantwr yn cytuno y bydd yn:

- (a) peidio ag adeiladu na gosod unrhyw beth ar y Tir, na chaniatáu i unrhyw drydydd parti wneud hynny, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'r Gweithredwr

gael mynediad at yr Offer, neu a allai ymyrryd â'r Offer, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Gweithredwr (na ddylid ei ddal yn ôl yn afresymol);

- (b) peidio ag achosi difrod i'r Offer nac yn ymyrryd â'r Offer neu ei weithrediad a pheidio â chaniatáu i unrhyw drydydd parti wneud hynny; a
- (c) rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw rhesymol i'r Gweithredwr am unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd a fyddai neu a allai effeithio ar weithrediad parhaus yr Offer, gan gynnwys (ond nid yn unig hyn) achosi ymyrraeth i unrhyw gyflenwad pŵer y mae'r Offer wedi'i gysylltu iddo.

6. PERCHNOGAETH O'R OFFER

Bydd yr Offer yn aros yn eiddo absoliwt i'r Gweithredwr bob amser.

7. CYFFREDINOL

- 7.1. Cytunir na fydd perthynas o landlord a thenant yn cael ei chreu gan y Cytundeb hwn rhwng y Grantwr a'r Gweithredwr.
- 7.2. Ni fydd y Cytundeb hwn yn berthnasol i unrhyw ran o'r Tir sydd wedi cael ei fabwysiadu neu (o ddyddiad mabwysiadu o'r fath) sydd yn cael ei fabwysiadu fel priffordd sy'n cael ei chynnal drwy'r pwrs cyhoeddus.
- 7.3. Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Cytundeb hwn ac unrhyw ddarpariaeth yn y Cod, y Cod fydd drechaf.

8. INDEMNIAID AR GYFER HAWLIADAU TRYDYDD PARTI

8.1. Bydd y Gweithredwr yn indemnio'r Grantwr hyd at uchafswm o [£1 miliwn / £3 miliwn / £5 miliwn] [y flwyddyn / gyda'i gilydd mewn perthynas â hawliad neu gyfres o hawliadau sy'n deillio o'r un digwyddiad] yn erbyn unrhyw achos, hawliad, cost neu ofynion trydydd parti ("Hawliad Trydydd Parti") sy'n codi o ganlyniad i unrhyw weithred neu esgeulustod gan y Gweithredwr wrth ymarfer ei hawliau o dan y Cytundeb hwn, ac eithrio i'r graddau y mae gweithred neu esgeulustod gan y Grantwr wedi achosi neu wedi cyfrannu at unrhyw Hawliad Trydydd Parti o'r Fath ac ar yr amod:

- (a) y bydd y Grantwr cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Gweithredwr ynghylch unrhyw Hawliad Trydydd Parti sydd wedi'i ddwyn, ei wneud neu ei fygwth yn erbyn y Grantwr;
- (b) na fydd y Grantwr yn cyfaddawdu nac yn setlo unrhyw Hawliad Trydydd Parti o'r fath heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Gweithredwr (na fydd yn cael ei ddal yn ôl na'i ohirio'n afresymol);
- (c) Bydd y Grantwr yn caniatáu i'r Gweithredwr amddiffyn unrhyw Hawliad Trydydd Parti yn enw'r Grantwr a hynny ar gost i'r Gweithredwr.

9. CYFYNGU AR ATEBOLRWYDD

9.1. Nid oes dim byd yn y Cytundeb hwn yn cyfyngu ar nac yn eithrio atebolrwydd y naill barti na'r llall:

- (a) am farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o'i esgeulustod;
- (b) am unrhyw ddifrod neu atebolrwydd a ddaw o ganlyniad i dwyll neu gamddechongli twyllodrus gan y parti hwnnw; neu
- (c) pan neu i'r graddau y mae wedi'i wahardd gan gyfraith fel arall.

9.2. Yn amodol ar gymal [9.1], bydd atebolrwydd y Gweithredwr o dan y Cytundeb hwn i'r Grantwr wedi'i gyfyngu i [Rhowch y swm] o bunnoedd (£[Rhowch y swm]) [y flwyddyn/gyda'i gilydd]. Ni fydd y cyfyngiad hwn ar atebolrwydd yn berthnasol i'r indemniad a roddir o dan gymal [8.1].

9.3. Yn amodol ar gymal [9.1], bydd atebolrwydd y Grantwr o dan y Cytundeb hwn i'r Gweithredwr wedi'i gyfyngu i [Rhowch y swm] o bunnoedd (£[Rhowch y swm]) [y flwyddyn/gyda'i gilydd mewn perthynas â hawliad neu gyfres o hawliadau sy'n deillio o'r un digwyddiad].

10. TERFYNU

10.1. Caiff y Grantwr derfynu'r Cytundeb hwn²⁹ drwy roi [tri deg (30)] diwrnod o rybudd yn ysgrifenedig i'r Gweithredwr os:

- (a) bydd y Gweithredwr wedi torri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn mewn ffordd [faterol/sylweddol] ac:
 - i) nid oes modd gwneud iawn am dorri'r rhwymedigaeth; neu
 - ii) mae'r Gweithredwr wedi methu gwneud iawn am dorri'r rhwymedigaeth cyn pen [tri deg (30) diwrnod] ar ôl i'r Grantwr roi gwybod i'r Gweithredwr am dorri'r rhwymedigaeth;
- (b) bydd y Gweithredwr wedi gohirio'n gyson gwneud taliadau sy'n ddyledus i'r Grantwr o dan delerau'r Cytundeb hwn;
- (c) bydd y Grantwr yn bwriadu ailddatblygu rhan neu'r cyfan o'r Tir neu unrhyw dir cyfagos, ac ni allai wneud hynny'n rhesymol oni bai fod y Cytundeb hwn yn dod i ben; neu

²⁹ Cofiwch, os bydd y Grantwr yn ymarfer unrhyw un o'r hawliau terfynu hyn, y bydd y cytundeb serch hynny yn parhau o dan baragraff 29 o'r Cod, oni bai fod y Grantwr hefyd yn rhoi 18 mis o rybudd i derfynu o dan baragraff 30 o'r Cod.

(d) y ddau:

- i) nad oes modd gwneud iawn digonol drwy arian am y niwed sy'n cael ei achosi i'r Grantwr drwy barhau â'r Cytundeb hwn; ac
- ii) nad yw'r budd cyhoeddus sy'n debyg o ddeillio o barhau â'r Cytundeb yn drech na'r niwed i'r Grantwr.

10.3 Caiff y Gweithredwr derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi [x diwrnod / mis] o rybudd yn ysgrifenedig i'r Grantwr:

10.4 Wrth derfynu'r Cytundeb hwn (ac eithrio pan fydd y Cytundeb yn parhau yn unol â pharagraff 29(2) o'r Cod), bydd y Gweithredwr cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn tynnu'r Offer oddi ar y Tir ac yn trwsio unrhyw ddifrod i'r Tir a achoswyd gan ei dynnu oddi yno i foddhad rhesymol y Grantwr.

11. ASEINIO

11.1. Caiff y Gweithredwr aseinio'r Cytundeb hwn i Weithredwr arall a fydd yn rhwym wrth ei delerau o'r dyddiad aseinio ymlaen.

11.2. Ni fydd y Gweithredwr yn atebol am dorri unrhyw un o amodau'r Cytundeb hwn a fydd yn digwydd ar neu ar ôl y dyddiad aseinio os:

- (a) ydy'r Grantwr yn cael rhybudd ysgrifenedig o enw aseina'i'r Gweithredwr a'i gyfeiriad at ddibenion cymal [15.2]; a
- (b) bod y rhybudd wedi cael ei roi cyn i'r amod gael ei dorri.

12. DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON)

Oni nodir yn glir, ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn creu unrhyw hawliau o blaid unrhyw unigolyn yn unol â Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

13. Y CYTUNDEB CYFAN

Y Cytundeb hwn ydy'r cytundeb cyfan rhwng y Grantwr a'r Gweithredwr sy'n ymwneud â'r Offer yn y Tir.

14. HOLLTI

Bydd pob un o ddarpariaethau'r Cytundeb yma'n cael eu dehongli fel darpariaeth ar wahân ac os bydd un neu ragor ohonynt yn cael eu hystyried yn anghyfreithlon, yn annilys neu nad oes modd eu gorfodi yna pennir y bydd y ddarpariaeth honno'n cael ei dileu ond ni fydd hynny'n effeithio ar orfodadwyedd gweddill y Cytundeb hwn.

15. HYSBYSIADAU

15.1. Rhaid i unrhyw hysbysiad a roddir o dan y Cytundeb hwn fod yn ysgrifenedig a bod wedi'i lofnodi gan neu ar ran y sawl sy'n ei roi.

15.2. Pennir y bydd unrhyw hysbysiad o'r fath wedi cael ei roi os caiff ei ddanfôn yn bersonol neu os caiff ei anfon drwy bost cofrestredig, post wedi'i gofnodi neu bost dosbarth cyntaf, ac (ym mhob achos) ei fod wedi'i gyfeirio:

(a) at y Grantwr yn

[*rhowch y cyfeiriad*].
[wedi'i farcio at sylw [*rhowch yr enw*]]

(b) at y Gweithredwr yn:

[*rhowch y cyfeiriad*].
[wedi'i farcio at sylw [*rhowch yr enw*]]

15.3 Yn dilyn gweithredu'r Cytundeb hwn, caiff unrhyw barti ddiwygio ei gyfeiriad at ddibenion cymal [15.2] drwy roi hysbysiad i'r parti arall.

15.4 Mae pob parti yn cytuno y bydd y cyfeiriad a nodir yng nghymal [15.2] (fe y gellir ei ddiwygio wedyn o dan gymal [15.3]) hefyd yn cynrychioli eu cyfeiriad ar gyfer cyflwyno at ddibenion paragraff 87(2)(a) y Cod.

16. CYFLAFAREDDU

16.1. Os bydd unrhyw anghydfod yn codi mewn perthynas â'r cytundeb hwn, mae'r partiön yn cytuno i gymryd rhan mewn cyflafareddu mewn ewyllys da i setlo anghydfod o'r fath a bydd yn gwneud hynny'n unol â [Gweithdrefn Cyflafareddu Enghreifftiol y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfodau yn Effeithiol ("CEDR")]. Er mwyn dechrau'r cyflafareddu rhaid i barti roi hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad dull amgen o ddatrys anghydfod") i'r parti arall yn yr anghydfod, gan gyfeirio'r anghydfod at gyflafareddu. Dylid anfon copi o'r atgyfeiriad at [CEDR]. Oni chytunir yn wahanol rhwng y partiön, fel rheol bydd y cyflafareddwr yn cael ei enwebu gan [CEDR] cyn pen [14] diwrnod o rybudd o'r anghydfod.

16.2. Oni chytunir yn wahanol, bydd y cyflafareddu yn dechrau dim hwyrach na [28] diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad dull amgen o ddatrys anghydfod. [Ni fydd dechrau cyflafareddu yn rhwystro'r partiön rhag dechrau neu barhau ag achos llys]

16.3. [Ni chaiff unrhyw barti gychwyn unrhyw achos llys mewn perthynas ag unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r cytundeb hwn nes iddo fod wedi ceisio setlo'r anghydfod drwy gyflafareddu ac naill ai mae'r cyflafareddu wedi dod i ben neu mae'r parti arall wedi methu cymryd rhan yn y cyflafareddu, ar yr amod nad yw'r hawl i gychwyn achos wedi'i niweidio oherwydd yr oedi].

17. AWDURDODAETH A CHYFRAITH SY'N LLYWODRAETHU

- 17.1. Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu gan, a bydd yn cael ei lunio yn unol â, chyfreithiau Cymru a Lloegr.
- 17.2. [Yn amodol ar gymal 16] mae'r partiön yn cytuno i gyflwyno i awdurdodaeth Iwyr [llysoedd Lloegr/siryf yn yr Alban] yng nghyswllt unrhyw anghydfodau neu hawliau a fydd yn deillio o'r Cytundeb hwn.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran [**Grantwr**] gan:

_____ Llofnod

_____ Enw

_____ Dyddiad

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran [**Gweithredwr**] gan:

_____ Llofnod

_____ Enw

_____ Dyddiad

**ATODLEN 1
YR OFFER**

[Rhowch ddisgrifiad o'r offer cyfathrebiadau electronig sydd i'w gosod]

[ATODLEN 2

Y TIR]

[Rhowch gynllun sy'n dangos lleoliad y Tir]

ATODLEN [3]

TREFNIADAU MYNEDIAD

[I'w cytuno rhwng y partïon – gweler Atodlen B o God Ymarfer y Cod Cyfathrebiadau Electronig]

Atodiad 7

Hysbysiadau TEMPLLED DRAFFT

STATUTORY NOTICE
OF THE ASSIGNMENT OF AN AGREEMENT UNDER THE ELECTRONIC
COMMUNICATIONS CODE

Paragraph 15(5) of Part 3 of Schedule 3A of the Communications Act 2003

1. This is a statutory notice pursuant to paragraph 15(5) of the electronic communications code, set out in Schedule 3A to the Communications Act 2003 (the “**Code**”).¹
2. [*Insert name of Code operator*] (“**we**” or “**us**”) are currently party to an agreement under Part 2 of the Code with you, [*Insert name of site provider*] (the “**Agreement**”). Under the Agreement, you agreed to [*confer / be bound by*] a number of Code rights in order to facilitate the deployment by us of our [*electronic communications network / infrastructure system*]. These Code rights relate to land occupied by you at [*Insert address*].
3. The purpose of this notice is to inform you that, on [*Insert date*], we assigned the Agreement to [*Insert name of assignee*] (the “**Assignee**”). This means that we have transferred the benefit of the Code rights [*conferred by / binding on*] you under the Agreement to the Assignee, and the Assignee is (from the date of the assignment) bound by the terms of the Agreement.
4. Please note that, from the date on which this notice has been given to you, we will not be liable for any breach of a term of the Agreement (unless that breach took place before the date on which this notice was given to you). As a result, should you have any concerns in the future about the exercise of Code rights on your land, please contact the Assignee.
5. The contact address for the Assignee is [*Insert*].
6. If you have any questions about this notice, please do not hesitate to contact us via telephone (*Insert number*) or e-mail (*insert email address*).

[*Insert date of Notice*]

¹ A copy of the Communications Act 2003 is available online at www.legislation.gov.uk.

STATUTORY NOTICE
SEEKING AGREEMENT TO THE CONFERRAL OF RIGHTS UNDER THE ELECTRONIC COMMUNICATIONS CODE

Paragraph 19(2) **[and Paragraph 26(1)]** of Part 4 of Schedule 3A of the Communications Act 2003

IMPORTANT NOTICE
If you are willing to enter into a Code Agreement, you should respond within 28 days

1. This is a statutory notice pursuant to paragraph 19(2) **[and paragraph 26(1)]** of the electronic communications code, set out in Schedule 3A to the Communications Act 2003 (the “**Code**”).¹
2. This notice has been issued by **[Name of Code operator]** (“**we**” or “**us**”) to you, **[Insert name]**, because we would like to **[insert brief description of rights sought, e.g. to install apparatus and carry out related works]** on land occupied by you for the purposes of our **[electronic communications network and/or infrastructure system]**. We are seeking your agreement to confer these rights on us.

[OR - delete appropriate version of paragraph 2]

2. This notice has been issued by **[Name of Code operator]** (“**we**” or “**us**”) to you, **[Insert name]**, because we have certain rights to **[insert brief description of rights already exercisable by operator in relation to the land, e.g. keep apparatus installed on land in relation to which you have an interest]** for the purpose of our **[electronic communications network and/or infrastructure system]**. We are seeking your agreement to be bound by these rights.
3. **[We also require your agreement on a temporary basis in relation to electronic communications apparatus that is already installed on, under or over your land. This is in order to secure that the service provided by our [electronic communications network and/or infrastructure system] is maintained, and the apparatus is properly adjusted and kept in repair.]**

BACKGROUND

4. We provide an **[electronic communications network and/or infrastructure system]** in the United Kingdom. This is used in order to provide consumers with **[insert a brief description of the retail services which are dependent on this network and/or infrastructure system (e.g. fixed voice and broadband services)]**.
5. For this purpose, the Office of Communications (OFCOM) has given a direction applying the Code to us. The Code regulates the relationships between us and occupiers of land, thereby facilitating the deployment of electronic communications apparatus.

¹ A copy of the Communications Act 2003 is available online at www.legislation.gov.uk.

INTERPRETATION

6. In this notice:
 - a. “**Apparatus**” means the electronic communications apparatus described in Annex 1;
 - b. “**Land**” means the [land] at [Insert address / description of land, etc.]; and
 - c. words used but not defined in this Notice shall have the meaning ascribed to them in the Code.

DETAILS OF THE AGREEMENT WE ARE SEEKING

7. In this notice, we are seeking your agreement [to confer on us / to be bound by] the following rights:
 - a. [the right to install the Apparatus on, under or over the Land];
 - b. [the right to keep installed the Apparatus which is on, under or over the Land];
 - c. [the right to inspect, maintain, adjust, alter, repair, upgrade or operate the Apparatus which is on, under or over the Land];
 - d. [the right to carry out any works on the Land for or in connection with the installation of the Apparatus on, under or over the Land [or the installation of electronic communications apparatus elsewhere]];
 - e. [the right to carry out any works on the Land for or in connection with the maintenance, adjustment, alteration, repair, upgrading or operation of the Apparatus which is on, under or over the Land [or of electronic communications apparatus elsewhere]];
 - f. [the right to enter the Land to inspect, maintain, adjust, alter, repair, upgrade or operate the Apparatus which is on, under or over the Land [or any electronic communications apparatus elsewhere]];
 - g. [the right to connect the Apparatus to a power supply];
 - h. [the right to interfere with or obstruct a means of access to or from the Land (whether or not the Apparatus is on, under or over the Land)]; and
 - i. [the right to lop or cut back, or require another person to lop or cut back, any tree or other vegetation that interferes or will or may interfere with the Apparatus].

(together, the “**Code Rights**”).

8. In addition to the Code Rights, we are also seeking in this notice your agreement to the additional terms set out in Annex 2.
9. [As the electronic communications apparatus described in Annex 3 (the “**Existing Apparatus**”) is already installed on, under or over the Land, we are also seeking your agreement on a temporary basis to [confer/be bound by] the Code Rights set out at paragraph 7 above in respect of the Existing Apparatus (the “**Temporary Code Rights**”).]

CONSEQUENCES OF NOT REACHING AGREEMENT ON THE CODE RIGHTS

10. If either:
 - a. you do not, before the end of 28 days beginning with the day on which this notice is given, agree [to confer / to be bound by] the Code Rights; or
 - b. at any time after this notice is given, you give notice in writing to us that you do not agree [to confer / to be bound by] the Code Rights,

